

Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych

**Adolygiad o Gynnydd
yn erbyn Safonau Gofal
Iechyd i Gymru –
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth
2007**

Hydref 2007

Cynnwys

1.	Cyflwyniad a Chyd-destun	1
2.	Proses Asesu 2006-07	5
3.	Trosolwg o Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych.....	9
4.	Canfyddiadau	
	▪ Profiad y Claf	11
	▪ Canlyniadau Clinigol	25
	▪ Llywodraethu Gofal Iechyd	29
	▪ Iechyd y Cyhoedd.....	47
5.	Camau Nesaf	51

Atodiadau

Atodiad 1: Diffiniadau o Lefel Aeddfedrwydd	53
Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon	55
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Canlyniadau Corfforaethol, Gweithredol/ Clinigol a Lefelau Profiad y Defnyddiwr.....	63
Atodiad 4: Rhestr Termau	65

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych o berfformiad yn 2006-2007 yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn cyflwyno fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin i gynorthwyo'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon ac o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd.

1.3. Yn gyntaf oll, ac yn bennaf, cynlluniwyd y Safonau Gofal Iechyd i ddarparu'r lefelau gofal a thriniaeth gwell y mae gan bobl Cymru hawl i'w disgwyl yn rhesymol ac felly darparu sail y gall sefydliadau gofal iechyd adeiladu arni a gwireddu'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal i gleifion a nodwyd yn strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gofal iechyd¹ yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, beth bynnag fo'r lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd i Gymru'n* nodi 32 o safonau mewn pedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o'r gwerthoedd craidd a ddylai fod yn sail i'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac mae pob safon mewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes yn eu cynrychioli.

¹ Diffinir sefydliadau gofal iechyd fel cyrff y GIG yng Nghymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill, yn cynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd i gleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

- Mae'r maes cyntaf 'Profiad y Claf' yn nodi:

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dewisiadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn amgylcheddau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dewisiadau'r cleifion. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi y bydd:

Y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil wedi'i asesu'n briodol, yn nodi sydd ei angen er mwyn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dewisiadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn ei gwneud yn eglur:

Y bydd gan Ddarparwyr a Chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dewisiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' yn datgan:

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â chyrff perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiad

1.5 O fis Ebrill 2007 ymlaen, mae'n ofynnol i sefydliadau gofal iechyd GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd a gwneud datganiad cyhoeddus blynyddol o sut y maent wedi perfformio.

1.6 Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu datganiadau a'u hunanasesiadau'n ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o

gydgysylltu profi a dilysu canlyniadau, gan ddefnyddio dadansoddiad sy'n seiliedig ar risg, yn erbyn amrywiaeth o ffynonellau data. Nodir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2006-2007 yn yr adran ganlynol.

1.7 O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd cydymffurfriad â'r safonau gofal iechyd hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at Ddatganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesiad

2.1. Mae 2006-2007 wedi bod yn flwyddyn o ddatblygiad a datblygwyd a phrofwyd proses newydd o asesiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r pwyslais wedi bod ar ddatblygu proses asesu sy'n gosod cyfrifoldeb yn bendant ar Fyrddau sefydliadau gofal iechyd am gydymffurfiad â'r *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ac sy'n cefnogi'r agenda lywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau maent yn eu darparu a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac yn bwysicach y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Mewn ymgynghoriad â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel wahanol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda mae'r Byrddau'n gwneud eu gwaith o ran sicrhau cydymffurfiad â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut mae cydymffurfiad yn cael ei sicrhau ar lefel y gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*² – sut brofiad mae'r defnyddiwr yn ei gael ac a yw hyn yn gwella?

2.3. Pennwyd meini prawf a chwestiynau asesu ar gyfer pob safon ac fe'u datblygwyd fel dull asesu ar y we sy'n galluogi i hunanasesiadau gael eu cwblhau ar-lein a thystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddwyd i bob cwestiwn i gael ei lanlwytho. Ategir y cwestiynau gan ganllawiau sy'n darparu cyfarwyddyd defnyddiol ar ofynion bob un o'r 32 safon.

2.4. Mae wedi bod yn ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran darparu'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn bob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices

² Yng nghyd-destun y broses asesu Safonau Gofal, defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu i berfformiad gael ei asesu ar y lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr fel bod ar un o bum lefel o aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymatebol
- Datblygol
- Ymarferol
- Arweiniol

Mae diffiniadau o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn ar gael yn Atodiad 1.

2.5. Gan y bu hon yn flwyddyn o ddatblygiad, mae sefydliadau'r GIG wedi gorfod bodloni rhai terfynau amser tyn ac roedd yn ofynnol iddynt gyflwyno hunanasesiad i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, tri mis ar ôl i'r dull asesu gael ei ryddhau. Bodlonwyd y terfyn amser gan Ymddiriedolaeth Siroedd Conwy a Dinbych a hoffem gydnabod y llwyth gwaith aruthrol, ymdrech ac ymroddiad a ddangoswyd gan Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych i sicrhau y bodlonwyd y terfynau amser.

Profi a Dilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu'r cyflwyniad hunanasesu gan Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych, ac mae hyn wedi cynnwys nifer o gamau:

- *Cam 1* - Dilysiad pen bwrdd o'r hunanasesiad gan gymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Roedd y cam hwn yn cynnwys nodi pa un a oedd y cwestiynau oedd yn ategu pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi pa un a oedd yr ateb wedi'i gefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso pa un a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r marc aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y sefydliad.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd cymedroli trwy gydol mis Awst i gymharu a chyferbynnu ymatebion a marciau aeddfedrwydd fesul sefydliad a fesul safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol i sicrhau bod y marcio yn gyson ac wedi'u safoni.

- *Cam 3* – Ymweliadau safle â sefydliadau i brofi agweddau ar brofiad y claf/y defnyddiwr.

Yr Ymweliad Safle

2.7. Roedd yr ymweliad safle'n un cam o'r broses o ddilysu a phrofi'r hunanasesiadau a gyflwynwyd, ac fel y nodwyd uchod, roeddent yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliadau â sefydliadau'r GIG yn ystod mis Medi 2007.

2.8 Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda chleifion a staff ym mhob BILI ac Ymddiriedolaeth GIG. Yn ogystal, roedd yr ymweliadau â safleoedd yr Ymddiriedolaethau yn cynnwys gwaith arsylwi a gyflawnwyd mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, adrannau cleifion allanol a wardiau gofal henoed. Hefyd, cynhaliwyd archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, hyfforddiant a gwerthuso ar staff oedd ar ddyletswydd yn yr adrannau/wardiau uchod ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar gael ar wefan AGIC www.hiw.org.uk.

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

2.9 Ym mis Awst, cyd-gysylltwyd a hwyluswyd tri chyfarfod rhanbarthol, 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd', gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gan ddod â chyrrff adolygu ac archwilio ynghyd fel y gellid rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu i'r broses o gadarnhau'r asesiadau Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol wrth symud tuag at rannu mwy o wybodaeth ledled sefydliadau adolygu a datblygu cynlluniau archwilio a sicrhau ar y cyd.

3. Trosolwg o'r Ymddiriedolaeth

3.1. Mae Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych yn darparu gwasanaethau Gofal Iechyd Aciwt, Cymunedol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i ardal canolbarth Gogledd Cymru, trwy rwydwaith o Ysbytai:

- Ysbyty Glan Clwyd, Y Rhyl
- Ysbyty Brenhinol Alexandra, Y Rhyl
- Ysbyty Abergele, Abergele
- Ysbyty HM Stanley, Llanelwy
- Ysbyty Cymuned Llangollen
- Ysbyty Cymuned Dinbych
- Ysbyty Cymuned Bae Colwyn
- Ysbyty Cymuned Rhuthun
- Ysbyty Cymuned Prestatyn a nifer o Ganolfannau Iechyd a Chlinigau.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn datgan mai ei nod yw darparu gofal o'r ansawdd uchaf i boblogaeth Gogledd Cymru.

4. Canfyddiadau – yn cynnwys elfennau o Welliant ac Arferion Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1

Ymgynghorir â'r cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S1.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod y Bwrdd yn ymroddedig i gynnwys cleifion a'r cyhoedd trwy nifer o fecanweithiau megis:

- Fe wnaeth Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gymeradwyo Polisi ar gyfer Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, sy'n cynnwys derbyn adroddiadau rheolaidd ar brofiad cleifion.
- Llawlyfr staff ar Gynnwys Cleifion a'r Cyhoedd a ddsbarthir yn ystod cyfnod Ymsefydlu'r Ymddiriedolaeth.
- Y *Grŵp Cysylltiadau*, sy'n cynnwys cleifion ac aelodau'r cyhoedd sy'n cynorthwyo'r sefydliad i sicrhau bod llais cleifion a'r gymuned leol yn hygyrch ac yn cael ei glywed. Hysbysir Bwrdd yr Ymddiriedolaeth am weithgareddau'r grŵp ac Adroddiad Blynyddol.
- Sefydlwyd Rhwydweithiau Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd yn y gogledd yn lleol ar gyfer rhannu syniadau, arfer da a datblygu dulliau ymgynghori ar y cyd.
- Datblygwyd y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar y cyd ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd iechyd, gofal cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

S1.3. Lluniwyd strategaethau a chynlluniau gweithredu Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd gan Is-adrannau'r Ymddiriedolaeth fel yr Is-adran Iechyd Meddwl ac

Anabledd Dysgu sydd wedi datblygu eu Strategaeth Bartneriaeth ar gyfer Cynnwys Defnyddwyr i annog a chynorthwyo'r broses o gynnwys defnyddwyr.

S1.4. Un o'r ffyrdd mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn adborth gan ddefnyddwyr yw trwy gardiau sylwadau. Maent ar gael ar fyrdau arddangos ledled y sefydliad ac anogir defnyddwyr i'w cwblhau i gynnig adborth. Mae'r Is-adrannau'n asesu'r cardiau sylwadau'n rheolaidd ac mae'r Grŵp Monitro Cwynion ac Ymglyfreitha'n eu monitro. Defnyddir byrddau arddangos hefyd i ddarparu adborth ar y camau mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a dyma un o'r ffyrdd mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos ei bod wedi gwneud newidiadau i wasanaethau o ganlyniad i gasglu sylwadau defnyddwyr.

S1.5. Cadarnhaodd ein hymweliad arsylwi bod llawer o'r mecanweithiau uchod wedi'u sefydlu a nodwyd bod cleifion wedi cael cyfle i roi adborth ar eu profiadau a'u bod o'r farn y gwrandawyd ar eu hadborth. Nododd y cleifion bod staff yn gwrando'n astud, yn gynorthwyol ac yn ymroddedig i ddarparu gofal da.

S1.6. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 2

Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;*
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S2.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod wedi cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd trwy:

- Gynllun Gweithredol yr Ymddiriedolaeth, sy'n deillio o gyfuniad o dargedau cenedlaethol a blaenoriaethau lleol ac yn cael ei gadarnhau gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae hwn yn rhoi golwg lefel uchel ar brif flaenoriaethau'r sefydliad.
- Cynllun Gweithredol sy'n cynnwys materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Un o amcanion Cynllun Cydraddoldeb yr Ymddiriedolaeth yw cael gwared ar wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol o ran mynediad at wasanaethau iechyd trwy sicrhau gwybodaeth o ansawdd da.
- Mae targedau lleol sy'n cael eu llywio gan y Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a sylwadau'r Byrddau Iechyd Lleol (BILI) a'r Ymddiriedolaeth yn cyfrannu at yr asesiad o anghenion sy'n sail i'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.
- Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn monitro cynnydd yn erbyn targedau mynediad nad ydynt yn etholiadol yn fisol ac yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio Clinigol ac Effeithiolrwydd yn monitro cydymffurfiad a pherfformiad yn ôl safonau, canllawiau ac arferion gorau cenedlaethol.

S2.3. Mae galw a gofynion sy'n cystadlu ac yn deillio o wahanol safonau, canllawiau a pholisïau cenedlaethol yn cael eu datrys trwy neilltuo arweinwyr allweddol ar gyfer meysydd fel: Safonau Gofal Iechyd i Gymru - Pennaeth Llywodraethu Clinigol; Cerdyn Sgorio Cytbwys - Cyfarwyddwr Perfformiad; Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn - Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol; a Meddyginiaeth Brys ac Integredig, Llwybrau Gofal Integredig - Pennaeth Moderneiddio ac ati. Disgwylir i'r arweinydd fod ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r agendâu ehangach sydd wedi'u sefydlu yn yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod gofynion sy'n cystadlu'n cael eu nodi a'u rhoi mewn trefn briodol. Mae gofynion sy'n cystadlu yn ymwneud â materion clinigol yn cael eu trafod a'u rhoi mewn trefn o fewn strwythur Llywodraethu Clinigol y sefydliad.

S2.4. Mae meddygon teulu yn hysbysu cleifion am eu dewisiadau cyfeirio, mae gwybodaeth am amseroedd aros yn cael ei dosbarthu'n rheolaidd i feddygon teulu ac mae cleifion yn cael eu hysbysu am yr amseroedd aros cyfredol mewn llythyrau

cyfeirio. Nododd yr Ymddiriedolaeth bod gwybodaeth am amseroedd aros ar gael trwy Bapurau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar wefan yr Ymddiriedolaeth, ond fe wnaethom ganfod nad oedd y wybodaeth hon yn hawdd dod o hyd iddi a dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y wybodaeth hon yn fwy hygyrch ar ei gwefan.

S2.5. Nododd ein hymweliad arsylwi bod staff yn cael eu hysbysu am ganllawiau cenedlaethol mewn nifer o ffyrdd, fel hysbysfyrddau, e-byst a chyfarfodydd amrywiol.

S2.6. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Ond rydym o'r farn mai dim ond **Datblygol** yw'r asesiad ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, gan nad oedd tystiolaeth arwyddocaol o welliant parhaus yn ymateb yr Ymddiriedolaeth.

Safon 3

Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S3.2. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn derbyn adroddiadau misol ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth o ran targedau brys Llywodraeth Cynulliad Cymru (95% o gleifion i dreulio llai na phedair awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys ac ni ddylai unrhyw gleifion aros mwy nag wyth awr). Hysbysir staff am berfformiad yn erbyn y targedau hyn a thrafodir y mater mewn Cyfarfodydd Nyrsio Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys hefyd.

S3.3. Ni chyrrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth y targedau mynediad brys ar gyfer 2006-2007, sy'n sefyllfa debyg i'r hyn a adlewyrchir ledled Cymru.

S3.4. Yn ystod yr ymweliad arsylwi â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, nid oedd yr amserydd electronig sy'n dynodi faint y byddai angen i gleifion aros cyn cael gweld rhywun yn gweithio. Dywedodd aelodau'r staff eu bod yn hysbysu cleifion am amseroedd aros dim ond pan fo'r adran yn brysur.

S3.5. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond rydym o'r farn mai dim ond **Ymatebol** yw asesiad yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i fonitro a gwella targedau mynediad brys a sicrhau bod cleifion yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn cael eu hysbysu am ba mor hir y bydd angen iddynt aros cyn cael eu gweld gan rywun.

Safon 4

Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:

- a. yn hybu lles y cleifion a'r staff;*
- b. yn parhau anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c. yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff;*
- ch. yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S4.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae pob cynllun ac adeilad mawr wedi'u strwythuro'n unol â'r Llawlyfr Buddsoddi Cyfalaf.
- Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn sesiynau briffio trwy'r Gyfarwyddwr Ystadau a'r Gweithgor Cyfalaf, a fynychir gan nifer o Gyfarwyddwyr Gweithredol.
- O ran adeiladau sy'n bodoli eisoes, mae'r data perfformiad ystadau'n rhoi sail i'r Strategaeth Gwasanaeth a'r Rhaglen Cyfalaf ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.
- Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd wedi'i gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol ac Is-grŵp Cydraddoldeb i Bobl Anabl sy'n cynnwys Rheolwr Ystadau.
- Aseswyd risg pob adeilad yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabled.

- Llinell atebolrwydd glir hyd at y Prif Weithredwr o safbwynt iechyd, diogelwch a lles, wedi'i hategu gan bolisi'r Ymddiriedolaeth.
- Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth a Phwyllgorau Is-adrannol.
- Llinell atebolrwydd glir hyd at Fwrdd yr Ymddiriedolaeth o safbwynt materion diogelwch.
- Nifer o bolisiâu a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau bod prosesau i reoli'r amgylchedd, fel Diogelwch Swyddfeydd/Adrannau Gwag a'r Polisi Diogelwch Cyffredinol.

S4.3. Roedd aelodau staff y siaradom ni â hwy fel rhan o'r ymweliad arsylwi yn Ysbyty Glan Clwyd yn teimlo bod diogelwch priodol ar gael iddynt ac yn teimlo'n ddiogel yn y gwaith ar y cyfan. Tra bo rhai cleifion ac aelodau staff yn teimlo bod yr adeiladau'n hygyrch ac yn briodol ar gyfer anghenion gofal iechyd cleifion, codwyd rhai pryderon gan aelodau staff a chleifion nad oedd rhai amgylcheddau'n addas a bod angen diweddarau'r cyfleusterau. Roedd hyn yn amlwg yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys gan ei bod yn anodd cynnal preifatrwydd a chyfrinachedd oherwydd y cynllun ac mae'r sefyllfa'n waeth pan fo'r uned yn brysur. Yn yr Adran Cleifion Allanol, gwelsom rai cleifion yn cael problemau mewn dod o hyd i'r man aros cywir ar gyfer y clinig roeddent yn ei fynychu. Mae pum man aros posibl wedi'u trefnu ar draws tri choridor ac nid yw'n eglur ym mha un y dylai cleifion aros. Fe sylwom fod aelodau'r staff yn helpu pan oedd cleifion yn y lle anghywir, gan eu hebrwng i'r man aros cywir neu eu hailgyfeirio.

S4.4. Ni aeth yr ymateb a'r dystiolaeth gan yr Ymddiriedolaeth i'r afael yn llawn â'r safon hon ac ni ddangoswyd gwelliant parhaus. Rydym yn cytuno felly gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond rydym o'r farn mai dim ond **Datblygol** yw'r asesiad ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd

- yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn;*

- c. *yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S5.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei hymroddiad i lendid, hylendid a sicrhau bod y perygl o heintiad mor isel â phosibl trwy:

- Archwiliadau mewnol ac allanol a defnyddir ymweliadau gan y Cyngor Iechyd Cymuned i nodi elfennau o'r amgylchedd ysbyty sydd mewn cyflwr anfoddhaol ac i roi sail i gynlluniau gweithredu ar gyfer gwaith cynnal a chadw.
- Mae Cyfarwyddwr Anweithredol yn aelod o'r Grŵp Ysbyty Glanach, sy'n goruchwylio'r broses o sefydlu'r Strategaeth Ysbytai Glanach ac yn adrodd trwy'r Strwythur Adrodd ar Lywodraethu Clinigol.
- Rhaglen barhaus o archwiliadau Safonau Glendid Cenedlaethol.
- Y Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r holl faterion rheoli heintiau i'r Ymddiriedolaeth. Mae aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol, Tîm Rheoli Heintiau a chynrychiolwyr o bob isadran.
- Amrywiaeth o bolisiâu a strategaethau cynhwysfawr sydd â'r nod o leihau'r peryglon o Heintiadau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd.

S5.3. Roedd y manau i ni ymweld â nhw'n lân, yn daclus ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan. Nododd aelodau staff a chleifion bod safonau glendid a mesurau rheoli heintiau yn uchel. Roedd posteri hylendid dwylo'n amlwg yn y manau yr ymwelwyd â nhw a gwelwyd bod aelodau staff yn glanhau eu dwylo'n briodol rhwng pob claf.

S5.4. Mae hyfforddiant rheoli heintiau ar gael i aelodau staff ond mae'r nifer sy'n manteisio arno'n amrywio, mewn Wardiau Gofal Henoed a'r Adran Cleifion Allanol. Ar ddiwrnod ein hymweliad, ychydig iawn o aelodau'r staff oedd wedi derbyn hyfforddiant rheoli heintiau. Nododd yr aelodau staff y siaradom ni â hwy yn yr

Adran Damweiniau ac Achosion Brys eu bod wedi derbyn hyfforddiant, ond ni dderbyniom y cofnodion y gofynnwyd amdanynt ac felly nid oedd modd i ni ddilysu hyn. Ni dderbyniwyd cofnodion ar gyfer staff meddygol o unrhyw un o'r manau i ni ymweld â nhw chwaith.

S5.5. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol hefyd, gan nad oes tystiolaeth sylweddol o welliant parhaus yng Nghyflwyniad yr Ymddiriedolaeth. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth wneud mwy i sicrhau y darperir hyfforddiant rheoli heintiau yn gyson ledled y sefydliad.

Safon 6

Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a. *yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- b. *yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth;*
- c. *rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth i drafod a chytuno ar ddewisiadau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S6.2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod gwahanol anghenion iaith, cyfathrebu, corfforol a diwylliannol o ran gofal cleifion trwy:

- Wefan yr Ymddiriedolaeth sy'n cynnwys amrywiaeth o wybodaeth, yn cynnwys papurau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ddwyieithog a gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad.
- Llyfrgell ddwyieithog (electronig a phapur) i gleifion ac mae camau'n cael eu cymryd hefyd i gynhyrchu rhai taflenni ar ffurf sain, ar CD ac ar fformat print bras.

- Defnyddio *Language Line* i gyfieithu.
- Y diwygiad diweddar o'r Polisi ar gyfer Darparu Gwybodaeth i gleifion/defnyddwyr, gofalwyr ac ymwelwyr i gynnwys gwybodaeth fanwl am faterion yn ymwneud â hygyrchedd ac er mwyn sicrhau bod hyn yn ystyried holl anghenion a dealltwriaeth defnyddwyr gwasanaeth.
- Polisi Cyfathrebu a Chynllun yr Iaith Gymraeg.

S6.3. Mae proses eglur wedi'i sefydlu i sicrhau y datblygir gwybodaeth am amodau, gofal a thriniaeth yn unol â gofynion cyfredol ac y defnyddir fformat corfforaethol safonol. Nododd cleifion ac aelodau staff bod llawer o wybodaeth ar gael a dywedodd cleifion eu bod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol cyn iddynt gael eu derbyn ar gyfer llawdriniaeth a chadarnhawyd hyn yn ystod yr ymweliad arsylwi.

S6.4. Nododd ein hymweliad arsylwi mai prin oedd yr angen am ieithoedd eraill heblaw Cymraeg neu Saesneg, ond bod aelodau'r staff yn ymwybodol bod cyfieithwyr ar gael iddynt os oedd eu hangen. Nododd aelodau'r staff nad oedd sicrhau y gallent gyfathrebu gyda chleifion â nam ar y synhwyrau yn broblem fel rheol a bod dolenni clywed, cardiau lluniau a staff a allai gyfieithu ar y pryd a defnyddio iaith arwyddion i bobl fyddar ar gael iddynt. Nododd y cleifion bod gwybodaeth ysgrifenedig dda ar gael iddynt sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys am eu gofal ac roedd y weithdrefn i nodi pa enw fyddai orau gan y claf i'r staff ei ddefnyddio pan roeddent yn yr ysbyty'n boblogaidd gyda chleifion.

S6.5. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond rydym hefyd o'r farn ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol gan nad oedd cyflwyniad yr Ymddiriedolaeth yn nodi sut roedd y Bwrdd yn sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r safon hon a phrin oedd y dystiolaeth o welliant parhaus. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 7

Mae'r cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S7.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon drwy'r canlynol:

- Datblygu Strategaeth Amodau Hirdymor gyda phob sector a gofal sylfaenol. Rheoli Hunan-ofal yw un o'r ffrydiau gwaith.
- Mae Grŵp Partneriaeth Strategol yr Amodau Hirdymor yn monitro'r ffordd y darperir y rhaglenni Cleifion Arbenigol.
- Nyrsys Arbenigol.
- Sefydlu'r Dull Rhaglen Ofal ym maes Iechyd Meddwl.

S7.3. Mae cleifion yn cael eu galluogi a'u hymrymuso i wneud penderfyniadau a dewisiadau am eu gofal a'u triniaeth trwy drafodaethau gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, ee, rhaglen Diabetes XPERT, lle gall cleifion ddysgu sgiliau i gyfrannu at eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain. Fodd bynnag, nododd y cleifion y siaradom ni â hwy fel rhan o'r ymweliad arsylwi, er eu bod wedi derbyn gwybodaeth a chynnal trafodaethau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, nad oedd nifer ohonynt yn teimlo y gallent ddylanwadu ar eu llwybrau gofal.

S7.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel.

Safon 8

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; ac*
- ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, a eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S8.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n nodi egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol.
- Y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl sydd â'r nod o sicrhau cydraddoldeb i bobl anabl wrth gyflogi a darparu gwasanaethau.
- Datblygwyd y Polisi (drafft) ar gyfer Canllawiau i Fodloni Gofynion Crefyddol ac Ysbrydol Aelodau Staff a Defnyddwyr Gwasanaeth mewn partneriaeth ag aelodau'r staff.
- Safonau'r Polisi Ymddygiad i aelodau staff.
- Y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol.
- Aelodaeth a Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydraddoldeb Rhywiol y Gogledd.
- Polisi Caniatâd i Driniaeth ac Archwiliadau'r Ymddiriedolaeth a pholisïau eraill sy'n cynnwys cyfeiriadau at ganiatâd.
- Polisi Cyfrinachedd yr Ymddiriedolaeth a pholisïau eraill sy'n cynnwys cyfeiriadau at ganiatâd a Phrotocolau Rhannu Gwybodaeth.
- Y Cyfarwyddwr Nyrsio yw Gwarcheidwad Caldicott yr Ymddiriedolaeth.

S8.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn casglu safbwyntiau aelodau'r staff mewn nifer o ffyrdd - trwy arolygon, fforymau a chyfarfodydd, a nododd aelodau'r staff eu bod yn gallu rhoi eu sylwadau i'r Ymddiriedolaeth.

S8.4. Nododd yr ymweliad arsylwi bod cleifion yn teimlo y gofynnwyd iddynt am ganiatâd cytbwys cyn iddynt dderbyn gofal a thriniaeth a bod aelodau'r staff yn gynorthwyol gan esbonio beth fyddai'n digwydd iddynt. Nododd rhai o aelodau'r staff ei bod weithiau'n anodd sicrhau cyfrinachedd, yn enwedig os oedd lleoedd yn brysur a chodwyd pryderon bod cleifion gwrywaidd a benywaidd yn derbyn gofal gyda'i gilydd yn yr un culfannau ar y ward derbyniadau brys.

S8.5. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** ar bob un o'r tair lefel ond mae angen i'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â'r mater o gulfannau rhyw cymysg, fel y nodir uchod, cyn gynted â phosibl.

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau diet cytbwys; a*
- b. bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran diet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S9.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Cytunir ar fwydlenni gyda'r Dietegydd ac mae bwydlenni arbenigol ar gael i'r cleifion hynny sydd angen diet arbennig.
- Mae bwydlenni wedi'u cynllunio ar gael ym mhob ysbyty ac mae byrbrydau a bagiau byrbrydau mewn argyfwng ar gael mewn ysbytai llai.
- Mae'r holl gleifion yn cael eu sgrinio'n faethol wrth eu derbyn gan ddefnyddio'r Dull Sgrinio Diffyg Maeth Cyffredinol i nodi oedolion â diffyg maeth neu sydd mewn perygl o fod â diffyg maeth neu o fod yn ordew.
- Hyfforddiant diogelwch bwyd i aelodau staff perthnasol.
- Y Polisi Maeth ac Arlwy.
- Y Polisi Amddiffyn Amser Prydau sydd â'r nod o amddiffyn y claf rhag unrhyw ymyriadau diangen y gellid eu hosgoi.

S9.3. Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth yn nodi bod yr holl Is-adrannau'n gwneud gwaith cynllunio gweithlu blynyddol a ddylai ystyried bod â digon o aelodau staff ar gael yn ystod amser prydau i gynorthwyo gyda'r gwaith o fwydo cleifion. Er i'r ymweliad arsylwi nodi bod llawer o gleifion o'r farn bod y bwyd yn dda ac wedi gwella'n ddiweddar, roedd rhai'n credu hefyd ei fod yn ddiflas a bod y dewis i rai dietau arbenigol yn gyfyngedig. Nododd cleifion ac aelodau staff bod y fenter

amddiffyn amser prydau'n ddefnyddiol. Nodwyd hefyd bod problemau weithiau gan nad oedd digon o aelodau staff i gynorthwyo gyda'r gwaith o fwydo cleifion, yn enwedig pan oedd nifer fawr o gleifion dibynnol. Mae aelodau'r staff wedi datblygu ffyrdd pragmatig o fynd i'r afael â'r materion hyn, ond mae gofyn i'r Ymddiriedolaeth eu hystyried ymhellach.

S9.4. Nododd cyflwyniad yr Ymddiriedolaeth y trefniadau corfforaethol i fynd i'r afael â'r safon hon, ond nid oedd yn cynnwys holl fanylion y trefniadau gweithredol ymarferol, ac mae'n ymddangos na wnaed ymdrechion i gael adborth y cleifion am y maes hwn. Rydym yn cytuno felly gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Claf, ond rydym o'r farn mai dim ond **Ymatebol** yw'r asesiad ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 10

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

S10.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S10.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n nodi egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol ac yn cyfarwyddo pob rhan o'r sefydliad.
- Y Polisi Safonau Ymddygiad, sy'n nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan bob aelod o'r staff.
- Cynllun Cydraddoldeb Hiliol yr Ymddiriedolaeth, sy'n nodi sut mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflawni ei dyletswydd cydraddoldeb hiliol.
- Y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl sy'n cyflwyno gweledigaeth yr Ymddiriedolaeth i sicrhau cydraddoldeb i bobl anabl wrth gyflogi a darparu gwasanaethau.
- Y Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol Drafft.
- Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n Arweinydd Cydraddoldeb.

- Cynllun Hyfforddi Cydraddoldeb i aelodau staff.

S10.3. Trafodir y cynnydd a'r heriau o sefydlu'r polisiau a'r cynlluniau uchod yn y Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb sy'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

S10.4. Gallwn gadarnhau asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

4.2 Canlyniadau Clinigol

Safon 11

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;
- b. y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.

S11.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S11.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol sy'n sicrhau bod mecanwaith wedi'i sefydlu ar gyfer monitro a chydymffurfio ag arferion gorau o ran gofal a thriniaethau clinigol o'r Lefel Is-adrannol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Y Pwyllgor Archwilio Clinigol ac Effeithiolrwydd sy'n cyfarfod bob mis ac yn monitro cydymffurfiad â Fframwaith y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.
- Trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth glinigol, trwy Raglen Arweinyddiaeth y Coleg Nyrsio Brenhinol er enghraifft, gwefan yn yr Is-adrannol Iechyd Meddwl sy'n ymroddedig i oruchwyliaeth glinigol a'r cyfnod preceptorïaeth i nyrsys sydd newydd gymhwyso.
- Polisiâu a gweithdrefnau i gefnogi'r gwaith o asesu cymhwysedd, hyfforddiant ac addysg.
- Trefniadau i sicrhau bod y sgiliau cywir gan y gweithlu a bod y sgiliau hyn yn cael eu diweddarau'n barhaus.

S11.3 Cynhelir diwrnodau llywodraethu clinigol bob mis lle mae clinigwyr yn cyflwyno achosion diweddar sy'n cael eu trafod a'u hadolygu gan gynulleidfa

am broffesiwn. Mae enghreifftiau o hyfforddiant a chyfarfodydd amlddisgyblaeth mewn isadrannau hefyd, i gynorthwyo'r broses o ddatblygu sgiliau clinigol a'r broses adolygu cymheiriaid.

S11.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac **Yn Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth gynnig mwy o enghreifftiau i ddangos rhan profiad y defnyddiwr y safon hon.

Safon 12

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a. yn cydymffurfio â gwerthusiadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn Fframweithiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- c. yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac*
- ch. yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl gyfrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.*

S12.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S12.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Defnyddio Dogfennau Asesu Unedig wrth dderbyn cleifion sy'n nodi'r holl agweddau ar anghenion corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol fel y gellir datblygu cynlluniau gofal priodol.
- Cynrychiolaeth ar y Bwrdd Partneriaeth Asesu Unedig a hefyd ar Dasgluoedd aml-asiantaeth sy'n monitro'r Broses Asesu Unedig.
- Archwiliad 'Hanfodion Gofal', a gynhelir gan Reolwyr Wardiau bob chwe mis.

- Cyfarfodydd misol Heb eu Trefnu'r Grŵp Llywio Gofal sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sefydliad ledled y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol leol.
- Mae gan y Pwyllgor Archwilio Clinigol ac Effeithiolrwydd a'i is-grŵp gyfrifoldeb datganoledig am ddatblygu Llwybrau Gofal Integredig.
- Hwylusydd Llwybrau Gofal Integredig sy'n gyfrifol am gynorthwyo timau amlddisgyblaeth i ddatblygu eu prosiectau llwybrau.

S12.3. Cynorthwyr aelodau staff yn y maes hwn trwy gyrsiau hyfforddi amrywiol, cyfleoedd mentora a chodir ymwybyddiaeth yn y Diwrnodau Llywodraethu Clinigol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu nifer o Llwybrau Gofal Integredig.

S12.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel.

Safon 13

Bydd gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S13.2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethu ymchwil trwy:

- Y Pwyllgor Ymchwil a Datblygiad sy'n goruchwylio'r holl faterion sy'n ymwneud ag Ymchwil a Datblygiad yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau statudol ac mae'n adrodd ar unrhyw faterion arwyddocaol i Dîm Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.
- Y Strategaeth Ymchwil a Datblygiad a pholisïau cysylltiedig.
- Y Panel Adolygu Mewnol, sy'n is-grŵp i'r Pwyllgor Ymchwil a Datblygiad, ac sy'n ystyried pob cynnig ymchwil newydd ac yn sicrhau ei gadernid, bod

ganddo arweinydd a nodwyd sy'n gyfrifol am fodloni safonau ansawdd (treialon clinigol) ac yn dosbarthu cyllid priodol.

- Cronfa ddata Ymchwil a Datblygiad ledled yr Ymddiriedolaeth, sy'n casglu gwybodaeth fanwl am yr holl waith ymchwil a gyflawnir yn yr Ymddiriedolaeth.

S13.3. Mae taflenni ar gael i aelodau'r staff i godi ymwybyddiaeth o'r fframwaith llywodraethu ymchwil ac mae gwybodaeth am faterion Ymchwil a Datblygiad wedi'i chynnwys ym Mriff Craidd yr Ymddiriedolaeth i holl aelodau'r staff. Mae cyrsiau hyfforddi a sesiynau ymwybyddiaeth amrywiol ar gael i aelodau'r staff.

S13.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ond rydym o'r farn mai dim ond **Datblygol** yw'r asesiad ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Gan nad yw ymateb yr Ymddiriedolaeth yn nodi'n llawn pa welliannau a gyflawnwyd o ran gwaith llywodraethu ymchwil sydd wedi effeithio ar brofiad y claf. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol, gan fod tystiolaeth bod gwaith llywodraethu ymchwil yn cael ei fonitro a'i wella'n barhaus ledled y sefydliad.

4.3. Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch a iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S14.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Cynhelir Archwiliadau Rheolaidd yn erbyn gofynion deddfwriaethol a chyflwynir Adroddiad Blynyddol, yn cynnwys crynodebau ac unrhyw dueddiadau a nodwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro gweithgarwch risg trwy strwythurau ac adroddiadau cynyddol y pwyllgor.
- Cofrestrau Risg Corfforaethol.

S14.3. Cynhelir hyfforddiant statudol a gorfodol i aelodau saff. Mae hyn yn cychwyn gyda chyfnod ymsefydlu ac yna hyfforddiant fel ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch, codi a chario a diogelwch tân. Mae Polisïau perthnasol yr Ymddiriedolaeth ar gael i aelodau'r staff yn y meysydd clinigol ac ar Weinydd Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth ac mae'r rhain yn cael eu diweddarau. Mae'r Tîm Rheoli Risg hefyd yn cynhyrchu cylchlythyr i aelodau staff i gynghori ar y newidiadau i bolisïau a materion risg.

S14.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Ond rydym o'r farn mai **Datblygol** yw'r asesiad ar y lefel Gorfforaethol hefyd, gan nad oedd yr ymateb a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn nodi'n eglur

eu polisiau a'r strategaethau sydd wedi'u sefydlu i amlinellu'r cyfeiriad strategol o ran y safon hon.

Safon 15

Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac*
- ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Arweiniol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S15.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Polisi Cwynion yr Ymddiriedolaeth a pholisiau perthnasol eraill sy'n amlinellu dull y sefydliad o ymdrin â chwynion ac yn datgan ei fod yn croesawu adborth ar ei wasanaethau.
- Mae'r daflen 'A oes gennych Gŵyn, Awgrym neu Bryder' ar gael yn ddwyieithog ac ar fformat sain ac ar wefan yr Ymddiriedolaeth.
- Ysgrifennwyd taflenni cwynion penodol ar gyfer plant gyda chymorth gan y plant eu hunain.
- Mae'r Grŵp Cwynion ac Ymglyfreitha, y mae Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol ymhlith ei aelodau, yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gwynion, cwynion/pryderon anffurfiol a chardiau sylwadau ac amseroedd ymateb.
- Adroddiadau Bob Chwarter ar brofiad y claf, yn cynnwys cwynion i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

- Mae cwynion yn cael eu monitro a'u dadansoddi o ran hil, anabledd, crefydd a chred, oedran, rhyw a rhywioldeb.
- Hyfforddiant ymdrin â chwynion i aelodau'r staff.

S15.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i sicrhau bod y system gwynion yn hygyrch i bawb ac mae posteri wedi'u harddangos i gleifion ac mae llyfrynnau cwynion ar gael, sy'n cynnwys manylion eiriolwyr y Cyngor Iechyd Cymuned, ac mae cardiau sylwadau wedi'u lleoli ym mhob rhan o safleoedd yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu mecanweithiau i sicrhau bod unrhyw lythyr ymateb neu gyfarfod yn ymwneud â chwynion yn cael ei anfon neu ei gynnal yn yr iaith neu'r cyfrwng a ddewisir gan yr unigolyn.

S15.4. Mae cardiau sylwadau'r Ymddiriedolaeth yn ffordd dda o sicrhau ei bod yn derbyn adborth gan gleifion, ac mae hysbysfyrddau sy'n nodi pa gamau a gymerwyd: "Rydych chi wedi'n hysbysu ac rydym ni wedi gwrando". Gwelwyd hyn yn ystod yr ymweliadau safle a dylid nodi y canfuwyd nifer o'r cleifion a oedd yn rhan o'r grwpiau ffocws o blith cleifion a oedd wedi cynnig adborth i'r Ymddiriedolaeth gan ddefnyddio'r cardiau sylwadau.

S15.5. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a chan fod tystiolaeth eglur o arfer da rydym yn cytuno gydag asesiad **Arweiniol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 16

Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt;*
- b. i roi gwybod am ddigwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. dangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau;*
- ch. sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.*

S16.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S16.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn monitro digwyddiadau'n ymwneud â Diogelwch Cleifion trwy adroddiadau rheolaidd a'r Grŵp Cleifion Mwy Diogel sy'n trafod digwyddiadau a champau i'w hatal rhag digwydd eto ac yn adrodd drwy'r strwythur pwyllgorau i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Mae'r broses o adrodd ar ddigwyddiadau'n cael ei monitro â'i hadrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth drwy'r Adroddiad Rheoli Risg Blynyddol. Mae hyn yn cynnwys adrodd yn ôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) a'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion fel eitem safonol, er ei bod yn aneglur pa mor aml yr adroddir ar ddigwyddiadau.
- Nodwyd cyfrifoldeb am y cyrff allanol amrywiol y dylid adrodd yn ôl iddynt, fel yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, LICC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
- Mae gwybodaeth genedlaethol am ddigwyddiadau, fel hysbysiadau diogelwch cleifion yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, yn cael eu bwydo drwy'r sianelau priodol yn ôl natur y ddogfen.
- Cyflwynir Adroddiad Bob Chwarter i'r Pwyllgor Rheoli Risg, sy'n dangos yr holl rybuddion a dderbyniwyd a chynnydd yn eu herbyn.
- Hyfforddiant i aelodau staff fel adrodd ar ddigwyddiadau, ymchwilio iddynt a hyfforddiant dadansoddi achosion craidd.
- Mae'r Polisi Adrodd ar Ddigwyddiadau, y Polisi Dyfeisiadau Meddygol, y Polisi Iechyd a Diogelwch ac eraill yn amlinellu'r gofyniad i adrodd ar ddigwyddiadau'n allanol.

S16.3. Cadarnhaodd yr ymweliad arsylwi bod y trefniadau uchod wedi'u sefydlu a nodwyd bod aelodau'r staff yn teimlo bod adrodd ar ddigwyddiadau'n flaenoriaeth uchel yn yr Ymddiriedolaeth ac yr adroddir ar ddigwyddiadau'n rhydd. Fe wnaethant

nodi hefyd bod cyfle i adrodd ar ddigwyddiadau'n ddiennw. Dywedodd aelodau'r staff wrthym eu bod yn teimlo bod diwylliant dysgu ac agored yn y sefydliad.

S16.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 17

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrff eraill.

S17.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S17.2. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â chanllawiau amddiffyn plant trwy:

- Strategaethau a Pholisïau amrywiol, fel Amddiffyn Plant, Gofalu am Blant/Pobl Ifanc a dderbynnir i wardiau y tu allan i Leoliadau Pediatrig penodol a Strategaeth Amddiffyn Plant.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.
- Y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant.
- Cyflwynir Papur Blynyddol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, sy'n amlinellu gwaith y Tîm Diogelu o ran darparu a chydymffurfio â Chanllawiau Amddiffyn Plant.

S17.3. Mae Strategaeth Hyfforddiant Amddiffyn Plant yr Ymddiriedolaeth yn amlinellu'r gwahanol lefelau o hyfforddiant amddiffyn plant. Yn ystod yr ymweliad arsylwi, canfuwyd bod mwyafrif yr aelodau staff y siaradom ni â hwy wedi derbyn hyfforddiant a chadarnhawyd hyn gan y cofnodion a dderbyniom gan yr Adran Cleifion Allanol. Nid dderbyniom gofnodion yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys na chofnodion staff meddygol er i ni ofyn amdanynt, felly ni allem ddilysu'r trefniadau ar gyfer y meysydd na'r aelodau staff hyn.

S17.4. Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â chanllawiau oedolion sy'n agored i niwed trwy:

- Y Polisi ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed sy'n cydymffurfio â chanllawiau LICC.
- Pwyllgor Monitro'r broses o Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed a Phwyllgor Hyfforddiant Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, sy'n cynnwys aelodau o'r holl Is-adrannau ac asiantaethau partner.
- Mae'r Ymddiriedolaeth yn aelod o Grŵp Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed Cymru Gyfan.

S17.5 Mae hyfforddiant i gynorthwyo aelodau staff i gydymffurfio â chanllawiau amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ar gael ar wahanol lefelau. Fe wnaethom ganfod yn ystod yr ymweliad arsylwi bod rhai o'r aelodau staff y siaradom ni â hwy yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi derbyn hyfforddiant ond ychydig iawn ar yr adran Cleifion Allanol ac ar y wardiau Gofal Henoed oedd wedi derbyn hyfforddiant. Ni dderbyniom gofnodion yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys na chofnodion staff meddygol, felly ni allem ddilysu'r trefniadau ar gyfer y meysydd na'r aelodau staff hyn. Mae hyn o bryder penodol gan fod cleifion yn y meysydd hyn yn fwy agored i niwed a dylai'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â hyn.

S17.6. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ond rydym o'r farn mai dim ond **Datblygol** yw asesiad y sefydliad ar gyfer y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol oherwydd y problemau gyda hyfforddiant Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed.

Safon 18

Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymateb lle bo'n ofynnol.

S18.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol**.

S18.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Arweinydd Gweithredol dynodedig ar gyfer Parodrwydd ar gyfer Achosion Brys sy'n cadeirio'r Grŵp Parodrwydd ar gyfer Achosion Brys, sef grŵp yr Ymddiriedolaeth sy'n arwain yn y maes hwn ar ran y sefydliad.
- Y Polisi Digwyddiadau Mawr.

S18.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal ymarferion cyfathrebu i brofi ei system blîp fewnol ac i fynd i'r afael ag unrhyw gamau gofynnol ac mae wedi cymryd rhan mewn ffug ymarfer dadhlogi torfol gan gefnogi Brigâd Dàn ac Ymddiriedolaeth Ambiwlans y Gogledd.

S18.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol ac **Ymarferol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a hefyd o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr gan ei bod wedi dangos yn eglur ei bod wedi dysgu a'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r ffug ymarferion a gynhaliwyd.

Safon 19

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;*
- bod dyfeisiadau meddygol aml dro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli; a*
- bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.*

S19.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarferol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S19.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Grŵp Llywio Dyfeisiadau Meddygol, a gadeirir gan Gyfarwyddwr Anweithredol a dyma grŵp strategaeth dynodedig yr Ymddiriedolaeth ar gyfer dyfeisiadau meddygol ac mae'n adrodd yn ôl drwy'r strwythur adrodd ar lywodraethu clinigol.
- Mae arweinydd ar lefel y Bwrdd sydd wedi'i nodi'n eglur ac sy'n neilltuo cyfrifoldebau i unigolion eraill yn yr Ymddiriedolaeth.
- Polisiâu'r Ymddiriedolaeth fel Rheoli Offer Dyfeisiadau Meddygol, Dyfeisiadau Trwytho a Dyfeisiadau Meddygol Untro.
- Mae Uned Diheintiad Sterileiddio'r Ysbyty'n cydymffurfio â chanllawiau perthnasol ac asesir gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â dadhalogi dyfeisiadau meddygol yn allanol. Nid yw agweddau eraill ar ddadhalogi yn yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau perthnasol.
- Mae'r Pwyllgor Dadhalogi'n cydgysylltu'r holl gynlluniau gweithredu a ysgrifennir i sicrhau cydymffurfiad neu i barhau i gydymffurfio.
- Hyfforddi aelodau staff sy'n gyfrifol am ddadhalogi dyfeisiadau meddygol.
- Y Polisi Meddyginiaethau a pholisiâu cysylltiedig.
- Y Pwyllgor Cyffuriau a Therapiwteg.
- Mae'r System Rheoli Gwastraff Amgylcheddol yn cydymffurfio â chanllawiau perthnasol a gofynion deddfwriaethol.
- Mae'r Grŵp Llywio Amgylcheddol yn adrodd yn ôl i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar unrhyw faterion arwyddocaol drwy'r Grŵp Risg Gweithredol.

S19.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod na ddangosir llinellau atebolrwydd eglur ar gyfer dadhalogi dyfeisiadau meddygol, er bod dealltwriaeth o bwy sy'n gyfrifol am ba faes. Dylid mynd i'r afael â hyn.

S19.4. Adroddwyd ar ddigwyddiadau'n ymwneud â dyfeisiadau meddygol, dadhalogi a rheoli meddyginiaethau trwy system adrodd ar ddigwyddiadau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r dystiolaeth yn nodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi adolygu'r digwyddiadau hyn ac wedi nodi meysydd i'w gwella gan ddatblygu'r camau hyn.

S19.5. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol ond rydym o'r farn mai **Datblygol** yw'r asesiad ar y lefelau

Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr hefyd. Roedd ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r defnydd ymarferol o reoli gwastraff, yn cynnwys hyfforddiant, monitro a gwersi a ddysgwyd yn gryno ac nid oedd yn datgan bod unrhyw gwynion, pryderon neu ddigwyddiadau wedi'u nodi o ran rheoli gwastraff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Safon 20

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S20.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Asesiad Moderneiddio a Chynllun Gweithredu Dilynol i wella gofal a chanlyniadau i gleifion ac mae aelodau'r staff yn rhan o'r timau prosiect i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu'r Fenter Cleifion Mwy Diogel, sy'n golygu bod diogelwch cleifion wedi symud i frig agenda'r Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn golygu bod Cyfarwyddwyr Gweithredol yn ymweld ag amgylcheddau cleifion yn rheolaidd ac yn siarad â staff rheng flaen yr Ymddiriedolaeth.
- Datblygu arweinyddiaeth i Nyrsys a Bydwragedd.
- Polisiâu Adnoddau Dynol, fel Rheoli Absenoldeb oherwydd Salwch a Gweithio'n Hyblyg. Fe'u datblygir mewn partneriaeth a chynrychiolwyr staff.

S20.3. Cyflwynwyd nifer o fentrau staff yn y sefydliad sydd wedi gwella gwasanaethau, fel y System Rhybudd Cynnar Diwygiedig (MEWS). Mae'r System o gymorth i nodi os yw cyflwr claf yn gwaethygu sy'n gwella ei ganlyniad os cymerir camau'n gynharach, a chyflwynwyd bwndeli gofal yn yr Uned Gofal Dwys, sydd wedi gwella canlyniadau cleifion yn sylweddol. Cadarnhaodd yr ymweliad arsylwi bod aelodau'r staff yn teimlo'n gyffredinol y gallent gyfrannu at wasanaethau a dylanwadu arnynt.

S20.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel.

Safon 21

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;*
- b. *yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac*
- c. *yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S21.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Polisi Cynhwysfawr, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, ar gyfer gwirio cofrestrïadau a chymwysterau.
- Polisi Corfforaethol ar Wirio Cofrestrïadau a Chymwysterau Proffesiynol a Pholisi Safonau Ymddygiad yr Ymddiriedolaeth.
- System i sicrhau y cynhelir ac y cofnodir gwiriadau o gofrestrïadau proffesiynol yn barhaus.
- Y Polisi Gallu a'r Weithdrefn ar gyfer Codi Pryderon.
- Ymarfer dilysu data staff a gynhaliwyd yn 2005 i gyfarwyddo'r cofnod staff electronig, o ran anabledd, rhyw a hil.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu a chytuno ar gynlluniau gweithredu, mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr staff a chleifion, o ran hil, anabledd a rhyw.

S21.3. Dangosodd dystiolaeth yr Ymddiriedolaeth bod y safon hon ar waith yn ymarferol ledled y sefydliad. Canfuwyd yn ystod ein hymweliad arsylwi y cynhaliwyd archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar holl aelodau staff y Wardiau Gofal Henoed a dim ond dau o'r Adran Cleifion Allanol. Ni dderbyniom gofnodion yr Adran

Damweiniau ac Achosion Brys na chofnodion staff meddygol felly ni allem ddilysu'r trefniadau ar gyfer y meysydd na'r aelodau staff hyn.

S21.4 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel, ond rydym o'r farn bod angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ar frys y cynhelir archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar yr holl aelodau staff perthnasol.

Safon 22

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff

- a. *yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- b. *yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac*
- c. *yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S22.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Polisi a'r Weithdrefn Recriwtio.
- Cynhelir asesiad parhaus o gymhwysedd trwy oruchwylio a'r broses werthuso.
- Polisi Hyfforddiant Statudol a Gorfodol sy'n nodi gofynion hyfforddiant ar gyfer grwpiau staff amrywiol.
- Cesglir cofnodion presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi ar system electronig ac mae Rheolwyr yn cadw cofnodion yn lleol hefyd.
- Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Dysgu'r Ymddiriedolaeth yn diffinio'r prosesau i gefnogi datblygiad parhaus y staff.

S22.3. Mae pob Is-adran yn monitro cydymffurfriad â phrosesau gwerthuso staff a hyfforddiant gorfodol a statudol ac y symud i fyny. Yn ystod yr ymweliad arsylwi, dywedodd y rhan fwyaf o aelodau'r staff eu bod wedi cael eu gwerthuso neu eu bod yn disgwyl cael eu gwerthuso'n fuan, ond ni dderbyniom gofnodion yr Adran

Damweiniau ac Achosion Brys na chofnodion staff meddygol felly ni allem ddilysu'r trefniadau ar gyfer y meysydd na'r aelodau staff hyn. Nid yw'n ymddangos bod hyfforddiant yn gyson ym mhob adran fel y gwelir o faterion a godwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, a dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu a mynd i'r afael â hyn.

S22.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 23

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu safle; a chan*
- b. raglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S23.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Polisi Codi Pryderon yr Ymddiriedolaeth sy'n darparu fframwaith i aelodau staff godi pryderon am unrhyw agwedd ar y ddarpariaeth o wasanaethau neu ofal cleifion/cleientiaid.
- Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd galw heibio ar safleoedd ledled yr Ymddiriedolaeth fel y gall aelodau'r staff godi unrhyw bryderon sydd ganddynt.
- Mae proses "Hafan Ddiogel" i roi gwybod am ddigwyddiadau'n ddiennw i alluogi aelodau staff i godi pryderon yn gyfrinachol. Yn ogystal, anogir aelodau'r staff i godi pryderon a defnyddio'r Polisi Adrodd ar Ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod ymsefydlu corfforaethol.

S23.3. Mae nifer o ffyrdd mae'r Ymddiriedolaeth yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod y cyfraniad mae aelodau'r staff yn ei wneud i'r sefydliad, fel gwobrau amrywiol, *Gwobr*

y *Cadeirydd* er enghraifft, i ddangos gwerthfawrogiad am waith caled y staff a Gwobr 'Somebody Loves You' a gyflwynir i aelod o staff a argymhellwyd gan glaf neu berthynas am fod yn arbennig o gynorthwyol neu ofalgar.

S23.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond rydym o'r farn mai dim ond **Datblygol** yw'r asesiad ar lefel Profiad y Defnyddiwr hefyd. Er ein bod yn cydnabod yr angen i gadw unrhyw ddigwyddiadau yr adroddir arnynt yn yr Hafan Ddiogel yn gyfrinachol, mae'n debygol y bydd camau cyffredinol y dylid fod wedi'u cymryd i atal y problemau hyn rhag codi eto ac ni ddangoswyd hyn.

Safon 24

Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a. *fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; a*
- b. *sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S24.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Grŵp Cynllunio Gweithlu Rhanbarthol.
- Mae'n Ymddiriedolaeth yn aelod o Fwrdd Rheoli'r Prosiect Gofal Canolraddol, sy'n wasanaeth newydd i Sir Ddinbych ac mae'r trafodaethau'n cynnwys cynllunio'r gweithlu.
- Mae gan y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol brosiect integreiddio parhaus yn Sir Ddinbych i sicrhau gwasanaeth di-dor rhwng cleifion/cleientiaid iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- Y Cynllun Newid Gwasanaethau ac Effeithlonrwydd. Prosiect yw hwn i uno dwy ward yn yr ysbyty aciwt a gyflawnwyd mewn partneriaeth â'r

gwasanaethau cymdeithasol, a addasodd ffyrdd o weithio i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld a'u trin yn gyflym a phriodol.

S24.3. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod profiad y defnyddwyr wedi gwella yn dilyn y mentrau hyn. Mae'r broses integreiddio Therapi Galwedigaethol wedi lleihau'r amser aros am asesiad ac mae prosiect y Cynllun Newid Gwasanaethau ac Effeithlonrwydd wedi galluogi cleifion i weld rhywun yn gynt, i gael eu rhyddhau'n gynt ac mae'n atal achosion o orfod mynd i'r ysbyty heb fod angen.

S24.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefel Gorfforaethol ac **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond rydym hefyd o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 25

Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S25.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.
- Y Grŵp Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a nifer o is-grwpiau, sy'n sicrhau bod systemau wedi'u hintegreiddio ac wedi'u paratoi ar gyfer gwasanaethau clinigol effeithiol.
- Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.
- Mae cyfnod ymsefydlu'r Ymddiriedolaeth yn trafod agweddau allweddol ar Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg.

S25.3. Nid yw systemau ysbytai ar gael i staff clinigol tan eu bod wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol a bod systemau wedi'u sefydlu i sicrhau cysondeb a gonestrwydd gwybodaeth.

S25.4. Nid oedd cyflwyniad yr Ymddiriedolaeth yn nodi sut y defnyddir y wybodaeth a gesglir gan y sefydliad i ddylanwadu ar wasanaethau a thra bod yr ymateb yn nodi agweddau hyfforddiant yn ymwneud â Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, mae'r holiaduron Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg wedi nodi anghenion hyfforddiant pellach. Am y rhesymau hyn, rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond rydym o'r farn mai dim ond **Datblygol** yw'r asesiad ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 26

Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol yn eu lle i sicrhau:

- a. *bod y sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddar'u'r wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; a*
- b. *bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S26.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Mae Cynllun Gweithredol yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys y Rhaglen Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a rheoli cofnodion.
- Polisiâu a Strategaethau amrywiol, fel y Polisi Rheoli Cofnodion, y Polisi Cyfrinachedd a Chofnodion Cleifion.
- Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n gyfrifol am Reoli Cofnodion.
- Y Pwyllgor Cofnodion Iechyd sy'n gyfrifol am ffurfio'r strategaeth ar gyfer Rheoli Cofnodion Iechyd yn yr Ymddiriedolaeth.
- Sesiynau hyfforddi amrywio i aelodau staff yn cynnwys y cyfnod ymsefydlu.

S26.3. Mae Archwiliadau Mewnol ac Allanol yn nodi meysydd i'w gwella a chynhyrchir cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Fe wnaethom nodi yn ystod yr ymweliad safle bod cyfrinachedd cofnodion cleifion yn cael ei gynnal

yn y lleoedd yr ymwelwyd â hwy ac eithrio'r Adran Cleifion Allanol lle'r oedd cofnodion yn cael eu gadael heb unrhyw un i ofalu amdanynt y tu allan i ystafelloedd clinig mewn coridor prysur a dylai'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â hyn.

S26.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da wedi eu sefydlu sydd:

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; ac*
- d. yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S27.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos bod trefniadau llywodraethu ar waith drwy'r canlynol:

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu trefniadau adrodd i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â phrosesau llywodraethu Corfforaethol a Chlinigol ar lefel Is-adrannol a lefel Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Mae'r strwythur llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys nifer o bwyllgorau sefydlog sy'n adrodd yn ôl yn uniongyrchol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Y Pwyllgorau Archwilio, Cyllid, Rheoli a Chynllunio Perfformiad, Llywodraethu Clinigol, Ad-dalu a Chyllid Elusennol yw'r pwyllgorau hyn, sy'n gyfrifol am drafod, herio a chraffu'n fanwl ar berfformiad yn y meysydd hyn.
- Mae Corff Gweithredol yr Ymddiriedolaeth wedi nodi'n eglur y fframwaith atebolrwydd a chyfrifoldeb cyfunol ac unigol ar gyfer rheoli ariannol.

- Mae gan y Pwyllgor Archwilio gyfrifoldeb penodol am sicrhau i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth bod fframwaith mesurau rheoli mewnol effeithiol wedi'i sefydlu ac mae'n adolygu gweithgarwch archwiliadau mewnol ac allanol.
- Y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a safoni'r broses asesu risg a sut mae risgiau'n cael eu trosglwyddo fyny drwy'r sefydliad hyd at Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

S27.3. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu mecanweithiau i gefnogi didwylledd, uniondeb ac atebolrwydd trwy God Ymddygiad yr Ymddiriedolaeth a chefnogi ac atgyfnerthu diwylliant 'dim bai' gyda'r system adrodd Hafan Ddiogel.

S27.4 Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 28

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- b. yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- c. yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S28.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Strategaethau, Polisiâu a Gweithdrefnau i sicrhau bod egwyddorion llywodraethu clinigol wedi'u hintegreiddio i bob rhan o'r sefydliad, yn cynnwys y Strategaeth Llywodraethu Clinigol cyffredin.
- Mae Polisi ar lunio a rheoli polisi'n cynorthwyo'r broses datblygu polisi yn yr Ymddiriedolaeth.

- Mae pob Is-adran wedi nodi atebolrwydd ar gyfer Llywodraethu Clinigol ac mae Hwylusydd Llywodraethu Clinigol wedi'i enwi.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn monitro cydymffurfiad a chynnydd yn erbyn y Strategaethau, y Polisiâu a'r Gweithdrefnau a sefydlwyd. Cyfarwyddwr Anweithredol sy'n cadeirio'r Pwyllgor ac mae'n derbyn nifer o adroddiadau ar faterion llywodraethu clinigol allweddol drwy gydol y flwyddyn.
- Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.

S28.3. Disgwylir i bob Is-adran allu dangos ei bod wedi sefydlu egwyddorion llywodraethu clinigol a'u cynnwys yn eu ffyrdd arferol o weithio. Holiadur Llywodraethu Clinigol, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ag aelodau'r staff, yw'r sail ar gyfer adolygiadau Llywodraethu Clinigol mewnol blynyddol a dangoswyd camau a gymerwyd yn eu sgil.

S28.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Ymarferol** yr Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel.

4.4 Iechyd y Cyhoedd

Safon 29

Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:

- a. *drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- b. *drwy sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

S29.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S29.2. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu dangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan ymarferol yn y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, prosesau gweithredu a gwerthuso yn Siroedd Conwy a Dinbych ac i raddau llai yn Sir y Fflint trwy gynrychiolaeth ar nifer o Grwpiau Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.
- Mae gweithgorau asesu anghenion Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a phennir blaenoriaethau ar gyfer pob ardal.
- Mae grwpiau perfformiad Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles penodol mae'r Ymddiriedolaeth yn eu mynychu.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth fynediad at gyngor arbenigol iechyd y cyhoedd lleol a chenedlaethol.
- Mae gan yr Ymddiriedolaeth gysylltiadau gwaith da gyda'r BILI sydd â mynediad uniongyrchol eu hunain at gyngor iechyd y cyhoedd.

S29.3. Cytunwyd ar flaenoriaethau'r Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer Siroedd Conwy, Dinbych a'r Fflint ac maent yn cael eu monitro drwy'r cynlluniau gweithredu ac roedd cleifion yn gallu dylanwadu ar y broses trwy ymgynghoriad cyhoeddus.

S29.4. Rydym yn cytuno gydag asesiad **Datblygol** yr Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel.

Safon 30

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac*
- b. *yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol a **Datblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S30.2. Nododd yr Ymddiriedolaeth nifer o wahanol raglenni atal afiechyd a hybu iechyd sydd wedi'u sefydlu ar gyfer aelodau'r staff, fel trwy'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ac fel rhan o'r Strategaeth Gweithlu Iach. Fodd bynnag, ni ddarparodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth i ateb y cwestiwn yn ymwneud ag atal afiechyd a hybu iechyd o ran cleifion a'r cyhoedd, megis drwy'r Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol. Am y rheswm hwn, nid ydym yn cytuno gydag asesiad yr Ymddiriedolaeth ac rydym o'r farn mai dim ond **Ymatebol** yw'r asesiad ar bob un o'r tair lefel.

Safon 31

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*
- b. *yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldeb iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c. *yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldeb iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd;*
- ch. *yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1 Gweler yr ymateb i Safon 18

Safon 32

Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu ei hun yn **Arweiniol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S32.2 Cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth y Safon Iechyd Corfforaethol Aur ym mis Mawrth 2007 ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i gynnwys aelodau staff yn y broses.

S32.3. Mae AGIC wedi cytuno ar ddull cyson o asesu'r safon hon ac rydym yn ystyried mai **Ymarferol** yw'r Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel.

Mae crynodeb o lefelau aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon a aseswyd gan Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych trwy ei hunan-asesiad a chan AGIC yn dilyn prosesau profi a gwerthuso ar gael yn Atodiad 2.

5. Camau Nesaf

5.1. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Cytunir ar y cynllun hwn gan Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn monitro gweithrediad fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd ar waith ar gyfer GIG Cymru. Bydd y cynllun ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

5.2. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i wella'r dull asesu a'i wneud yn fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol ac alinio'r broses hunanasesu Safonau Gofal Iechyd gyda'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru gyfan ym mis Tachwedd 2007 a bydd yn integreiddio canfyddiadau adroddiadau unigol yn drosolwg o'r sefyllfa ledled Cymru. Bydd yr adroddiad yn pwysleisio'r themâu allweddol a'r meysydd risg a amlygwyd gan y broses asesu Safonau Gofal Iechyd.

Diffiniadau o Lefel Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymatebol	Datblygol	Ymarferol	Arweiniol
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion i fynd i'r afael â hwy ond ni allant ddangos penderfyniadau/ camau i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol sydd â thystiolaeth o arferion da ledled y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ledled y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy roi arferion arloesol ar waith a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill, gan alluogi cynaliadwyedd hirdymor i gael ei wireddu.
Gweithredol	Mae ymwybyddiaeth o'r materion i fynd i'r afael â hwy, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â hwy.	Mae ymwybyddiaeth o'r materion allweddol i fynd i'r afael â hwy a nodwyd amrywiaeth o ddewisiadau er mwyn mynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol ledled y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda'n cael eu rhoi ar waith ledled y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arferion arloesol, a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda yn gyffredinol er y datblygwyd dulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ledled y sefydliad hyd yn hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn rhagorol yn gyffredinol a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth eglur o arferion da, y gellir eu rhannu.

Atodiad 2

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon

Allwedd

L	Arweiniol
P	Ymarferol
D	Datblygol
R	Ymatebol
A	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 2

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 3

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 4

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 5

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 6

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	P

Safon 7

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 8

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 9

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 10

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 11

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	R	↔	R

Safon 12

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 13

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↑	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 14

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 15

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	L	↔	L

Safon 16

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 17

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 18

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	P

Safon 19

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 20

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 21

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 22

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 23

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↓	D

Safon 24

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	P

Safon 25

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 26

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 27

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 28

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↔	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↔	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Safon 29

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 30

	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	R

Safon 31



	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Ddim yn berthnasol		
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Ddim yn berthnasol		
Profiad y Defnyddiwr	Ddim yn berthnasol		

Safon 32


	Sgôr Hunan-asesu	Amrywiad (fyny/lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	L	↓	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	L	↓	P
Profiad y Defnyddiwr	P	↔	P

Atodiad 3


Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Canlyniadau Corfforaethol, Gweithredol/ Clinigol a Lefelau Profiad y Defnyddiwr




Sgoriau Lefel Aeddfedrwydd Canlyniadau Gweithredol/Clinigol



Sgoriau Lefel Aeddfedrwydd Profiad y Defnyddiwr



Cytuno/Anghytuno Gyda Sgôr yr Ymddiriedolaeth



Rhestr Termau Allweddol

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – yn darparu cyngor i'r Gweinidog dros iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau'n strategol.

cerdyn sgorio cytbwys - system reoli sy'n cynnig model y gall sefydliad ei ddefnyddio i egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u troi'n gamau gweithredu. Mae'n cynorthwyo gwelliant parhaus i berfformiad sefydliadol.

Gwarcheidwad Caldicott - uwch glinigwr ym mob sefydliad y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a adolygodd y broses o ddiogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

llwybr gofal – set o gamau trin a gofal a ddiffiniwyd sydd â'r nod o ddiwallu anghenion penodol pob claf.

archwiliad clinigol – gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwerthuso a mesur pa mor dda maent yn bodloni safonau a bennwyd ar gyfer eu gwasanaethau.

llywodraethu clinigol – fframwaith sy'n gwneud sefydliadau'r GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau'n barhaus a diogelu safonau uchel o ofal.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau sefydliadol i ddarparu gofal gwell i gleifion.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

Cyngor Iechyd Cymuned - sefydliadau dielw, hybu iechyd, eiriolaeth a pholisi cymunedol. Sefydlwyd y Cyngorau ym 1992 er mwyn cynyddu cyfraniad y gymuned at y broses o ddiffinio polisi'r wladwriaeth a pholisi lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd a'i ansawdd. Mae'r Cyngorau'n cynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn y GIG ac mae ganddynt hawl statudol i gael eu hymgynghori ar newidiadau iechyd yn eu hardaloedd.

Swyddfa Cofnodion Troseddol - asiantaeth weithredol a sefydlwyd i gynorthwyo sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth am gofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa'n cynorthwyo cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gwaith sy'n golygu cysylltiad â phlant neu aelodau eraill o gymdeithas sy'n agored i niwed.

diogelu data – gofyniad i gyrff cyhoeddus ac eraill weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Mae cyfrifoldebau o'r fath yn ddyletswyddau dan Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron, sydd â'r nod o ddiogel data sydd gan sefydliadu ar unigolion.

Cynllun Oes - yn nodi'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'n sefydlu strategaeth 10 mlynedd i'w gwireddu. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, pob un yn para tua thair blynedd. Maent yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Darparu Safonau Uwch a; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau ymhlith y Gorau yn y Byd.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon o ansawdd ym mhob lleoliad iechyd.

rheoli heintiau – set o weithdrefnau i atal heintiau rhag lledaenu, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer diheintiedig ac ati.

Byrddau Iechyd Lleol (BILI) - cyrff statudol sy'n gyfrifol am roi strategaethau ar waith i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) - cyrff hunanlywodraethol o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Ymddiriedolaethau'n cyflogi pob math o weithwyr proffesiynol gofal iechyd, yn cynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, ac ati. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawdriniaeth mewn ysbytai fel rheol. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, yn y gymuned fel rheol, ee nyrsys ardal, ciropodyddion, ac ati. Mae ymddiriedolaethau cyfunol yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaethau cymunedol ac aciwt dan un bwrdd rheoli.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol - awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau i'r GIG a chleifion ar feddygiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydlynu ymdrechion y wlad i gyd i roi adroddiadau am gamgymeriadau sy'n effeithio ar ddiogelwch claf ac, yn bwysicach, i ddysgu o'r camgymeriadau hyn.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion - yn darparu pob math o wasanaeth iechyd cyhoeddus gyda'r nod o: wella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; amddiffyn rhag afiechydon a bygythiadau iechyd cyfredol a newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg a; chyfrannu ar wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol – canllawiau i'r gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o afiechyd a salwch.

Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd – strategaeth a gynlluniwyd i sicrhau yr ystyrir sylwadau a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalgwyr a'r cyhoedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol y Coleg Nyrso Brenhinol - rhaglen sy'n neilltuo amser i nyrsys arsylwi gofal a'r ddarpariaeth o wasanaethau, a chyfweld â chleifion am y ddarpariaeth o ofal. Bwriad y rhaglen yw galluogi nyrsys i ddatblygu eu galluoedd arwain a'u gwneud yn fwy effeithiol, gwella sgiliau tîm a sefydliadol a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

Datganiadau o Reolaeth Fewnol - datganiad ar drefniadau corff cyffredinol y GIG ar gyfer sicrhau bod y prif beryglon mewn sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth -grŵp o bobl sy'n gyfrifol yn ôl y statud am wneud penderfyniadau mawr am strategaethau a pholisïau ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG. Fel rheol, mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pump o aelodau lleyg, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Cronfa Risg Cymru - cydgyllun hunan-sicrhau ar gyfer pob corff iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad rheoli risg da ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau a nodwyd.